**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Tachwedd 2022

Annwyl Mark,

Diolch am eich llythyr. Rwyf wedi cael cyfle i drafod y mater hwn yn fanwl gyda swyddogion. Fel y gwyddoch, er mai mater i mi yn y pen draw yw gwneud penderfyniadau ynghylch derbyniadwyedd busnes, mae'r Swyddfa Gyflwyno yn darparu cyngor ar faterion o'r fath ar fy rhan, ac yn gwneud hynny ar sail y canllawiau ynghylch y modd priodol o gynnal busnes y Senedd, a gyhoeddwyd gennyf i o dan Reol Sefydlog 6.17.

Brynhawn Gwener, cyflwynwyd pum gwelliant drafft i'r Swyddfa Gyflwyno gan y Llywodraeth. Cynghorodd y Swyddfa Gyflwyno yn briodol nad oedd un o'r gwelliannau hyn yn dderbyniadwy o dan y canllawiau am y naill neu'r llall o'r rhesymau a ganlyn, neu am y ddau ohonynt:

- Cwmpas: roedd y cynnig dan sylw yn gynnig o dan Reol Sefydlog 16.5 i sefydlu Pwyllgor yn y Senedd. Felly, roedd cwmpas y cynnig wedi'i gyfyngu nid yn unig gan y testun, sef ymchwiliad i COVID-19, ond hefyd gan y ffaith bod yn rhaid iddo gynnig teitl a chylch gorchwyl ar gyfer pwyllgor newydd yn y Senedd. Mae gwelliannau sy'n gwneud cynigion amgen ynghylch teitl a chylch gwaith y pwyllgor newydd yn dderbyniadwy. Fodd bynnag, nid yw unrhyw welliannau a fyddai'n arwain at gynnig nad yw'n cynnig sefydlu pwyllgor yn y Senedd yn dderbyniadwy, ac roedd dau o welliannau drafft y Llywodraeth yn syrthio i'r categori olaf hwnnw;

- Y modd priodol o gynnal busnes y Senedd: nod y tri gwelliant drafft a oedd o fewn cwmpas y cynnig oedd atal y pwyllgor newydd rhag dechrau a/neu gwblhau ei waith hyd nes bod adroddiad ynghylch ymchwiliad COVID-19 y Deyrnas Unedig yn cael ei

gyhoeddi. Byddai clymu gwaith un o bwyllgorau’r Senedd wrth ddigwyddiad y mae ei amseriad y tu hwnt i reolaeth y Senedd, ac sy’n debygol o ddigwydd ymhell yn y dyfodol (yn wir, mae’n bosibl na fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod y Senedd hon) yn mynd yn groes i’r modd priodol o gynnal busnes y Senedd, ac yn negyddu effaith y cam o sefydlu’r pwyllgor. Yn achos y gwelliannau drafft a oedd yn ceisio cysylltu gallu’r Senedd i drafod adroddiad y pwyllgor â’r un gweithgarwch, byddai’r gwelliannau hynny hefyd yn osgoi’r dulliau priodol o amserlennu busnes y Senedd, sydd wedi’u nodi yn ein Rheolau Sefydlog.

Mae’r Swyddfa Gyflwyno bob amser yn barod i weithio gydag Aelodau i roi cyngor ar dderbyniadwyedd gwelliannau, ac i wneud awgrymiadau adeiladol lle bo hynny’n bosibl. Yn ogystal, gwn fod perthynas waith dda yn bodoli rhwng y Swyddfa Gyflwyno a’ch swyddogion chi. Yng nghyd-destun dau o’r gwelliannau a oedd o fewn cwmpas, deallaf fod y Swyddfa Gyflwyno wedi cynnig geiriad amgen a fyddai wedi datrys unrhyw faterion o ran derbyniadwyedd, ond na chafwyd ymateb i’r awgrymiadau hynny y tro hwn. Byddwn yn eich annog chi a’ch swyddogion i ymgysylltu â’r Swyddfa Gyflwyno yn gynnar yn y broses dan sylw, yn enwedig mewn perthynas â chynigion mwy gweithdrefnol fel yr un hwn, a hynny er mwyn sicrhau y gellir nodi unrhyw faterion posibl yn gynnar a chaniatáu amser i ddod o hyd i atebion.

O ran eich pwynt olaf, mae’n bwysig sicrhau bod modd trafod cynigion amgen, wrth gwrs, ond rhaid i’r dewisiadau amgen hynny bob amser barchu cwmpas y cynnig gwreiddiol, sydd wedi’i gyflwyno a’i amserlennu’n briodol. Lle nad yw hynny’n bosibl, y cam priodol i’r rhai sy’n gwrthwynebu’r cynnig yw pleidleisio yn ei erbyn a chyflwyno eu cynnig eu hunain ar achlysur arall.

Yn gywir,

**Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English